CLWB ACHREDEDIG Chwaraeon RhCT Sport RCT CLUB ACCREDITATION

# TROSOLWG ACHREDU

## Beth yw'r Cynllun Achredu Clybiau Chwaraeon Rhondda Cynon Taf?

Mae ein Cynllun Achredu Clybiau yn golygu bod modd inni gefnogi clybiau a sefydliadau i gryfhau a chynnig mwy o gyfleoedd yn ogystal â helpu cymunedau i gydnabod pa glybiau sy'n cynnig yr amgylchedd a phrofiadau chwaraeon ac ymarfer corff gorau ledled Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni'n gweithio gyda chlybiau sydd wedi'u hachredu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau ac yn darparu amgylchedd diogel a hwyl ar gyfer eu haelodau.

## Meini prawf er mwyn dod yn Glwb wedi'i Achredu...

**Er mwyn bod yn Glwb wedi'i Achredu, rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol. Am ragor o wybodaeth am bob meini prawf, ewch i'n gwefan.**

Mae modd i'r Swyddog Chwaraeon yn y Gymuned roi cymorth i chi gyda chanllawiau a thempledi os ydych chi'n ansicr am rai pethau neu os ydych chi wedi colli dogfennau.

- ✔ **Cyfansoddiad y Clwb**
- ✔ **Strwythur y Clwb a Phwyllgor**
- ✔ **Cyfrif Banc ar gyfer y Clwb**
- ✔ **Polisi Diogelu a Swyddog Amddiffyn Plant**
- ✔ **Achrediad gyda Chorff Llywodraethu ac Yswiriant Priodol**
- ✔ **Hyfforddwyr Cymwysedig a gwirfoddolwyr**
- ✔ **Hyfforddwyr/gwirfoddolwyr wedi'u cymhwyso mewn Cymorth Cyntaf ac wedi derbyn Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

## PAM DDYLECH CHI GOFRESTRU?

Yn ogystal â chael eich cydnabod yn glwb Achredig Chwaraeon RhCT, byddwch chi'n cael:

- **Cymorth i ddatblygu timau a/neu sesiynau newydd**
- **Cymorth o ran cynyddu aelodaeth y clwb**
- **Cymorth o ran grantiau a chyllid**
- **Cymorth o ran datblygu'r clwb a threfniadau llywodraethu**
- **Cymorth gyda recriwtio gwirfoddolwyr ac addysgu hyfforddwyr**
- **Cymorth o ran datblygu cysylltiadau ag ysgolion**
- **Cymorth gyda deunyddiau marchnata a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol**

## Sut y mae modd i ni helpu?

Mae modd i'n Carfan Chwaraeon Cymunedol gefnogi eich clwb nid yn unig i sicrhau bod gyda chi bopeth yn ei le i fodloni'r meini prawf Achredu Clwb ond hefyd i'ch cefnogi gyda'ch cynlluniau datblygu clwb ac/neu unrhyw faterion wrth symud ymlaen.

➤ I gofrestru a derbyn cymorth, ewch i:
**www.rctcbc.gov.uk/AchreduClybiauChwaraeonRhCT**

➤ Neu, e-bostiwch ni i siarad ag aelod o staff:
**Chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk**